

Cefndir a Rhesymeg

Nod: Darganfod os ydy cyfryngau cymdeithasol chwaraeon yn blatfform i hybu'r iaith. Un rheswm mae'n bosib fod hyn yn wir ydy hunaniaeth genedlaethol. Mae'r iaith Gymraeg yn elfen hollbwysig o'n hunaniaeth ac yn ddiweddar, mae wedi dod i'r amlwg fod modd i chwaraeon hybu hunaniaeth genedlaethol (gweler llwyddiannau tîm pêl-droed dynion Cymru yn nhrnamaint Ewro 2016). Gobeithiaf allu profi cysylltiad amlwg rhwng y ddau ffenomenon mewn maes sydd heb gael ei ymchwilio eisoes, y cyfryngau cymdeithasol, gan fod y platfform yma yn tyfu mewn poblogrwydd bob blwyddyn.

Iaith

Gan mae problem ieithyddol ydy'r broblem hon – defnyddiol cael pennod yn edrych ar gymdeithaseg iaith, isod, gweler y camau fyddai yn ei gymryd yn y bennod yma. Rhannir y cysyniadau isod mewn i is-rannau.

Sociolinguistics → Sociology of language → Bilingualism → Minority Languages → Minority language media (MLM)

Yn ôl ymchwil, mae'n bwysig i ieithoedd lleiafrifol gael presenoldeb amlwg ar-lein: *'If a minority language community cannot respond to the 'challenges of modernity' then their language risks becoming 'increasingly irrelevant and stigmatized'* (UNESCO 2003, 11).

Ymchwil sy'n dangos fod pobl yn dyheu am gynnwys Cymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol: *'respondents were asked if they were more or less likely to follow someone on Twitter if that person tweeted entirely or mainly in Welsh. Of 240 respondents, 4% reported a negative influence, 36% were neutral and 60% reported that this would be a positive influence, including 32.9% who reported they would be 'much more likely to follow them'* (Cunliffe & Honeycutt 2013).

Meilyr Jones

Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd
MJones2@cardiffmet.ac.uk

Hunaniaeth Genedlaethol a Chwaraeon

Bydd y rhan yma yn esbonio elfen unigryw'r prosiect o ateb y broblem. Hynny yw, sut mae hunaniaeth genedlaethol sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn effeithio ar ddefnydd iaith – ac yn fwy penodol byth – ar gyfryngau cymdeithasol. *'According to Safal et al. (2007) language is a key element of community membership. However, there is limited academic research into the application of minority language use within different contexts (Nikolov and Djigunovic 2006), especially concerning community sport.'*



Trydar yn y ddwy iaith gan Rabbi Matondo – sylwer y gwahaniaeth o ran 'likes' rhwng y ddau.

@aaronramsey diolch am ddefnyddio'r Gymraeg e hyder! Mae dy Gymraeg yn champion.

As a Welsh learner and now Welsh teacher, showing clips of Aaron yn siarad Cymraeg does so much for profile of the iaith especially with pobl ifanc!

#Cymraeg #Welsh

Mae gan Aaron Ramsey gymaint o ddilynwyr a phoblogaeth Cymru mwy na lai.

Mae un tweet bach yn y Gymraeg bob hyn a hyn yn gallu gwneud gymaint o wahaniaeth.

Chwarae teg @OfficialBWFC 🍷❤️

The reason why gestures like this mean so much is mainly the sheer amount of nonsense the Welsh language has to put up with. From daft keyboard jokes to a disregard for place names, there's so much negativity.

This goes a long way. Diolch!

Bolton Wanderers @OfficialBWFC - Jun 7
Pwy sy'n barod am chwaraewr newydd? 🤔

Dyma rhai enghreifftiau o effaith defnydd y Gymraeg gan amryw o bobl o fewn chwaraeon – pwrpas y rhan yma o'r PhD bydd deall pam fod modd i'r platfform yma fod yn gymaint o fudd i'r iaith – beth yw'r cyswllt gyda hunaniaeth genedlaethol?

Methodoleg

Pwrpas y gwaith cysyniadol fydd ceisio dod i ddeall a dadansoddi rhai o resymau dros botensial defnyddio'r iaith Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol chwaraeon. Bydd fy ymchwil i yn ceisio profi/beirniadu'r hyn darganfuwyd yn y llenyddiaeth. E.e cwestiynu'r clybiau/sefydliadau isod i gwestiynu ei defnydd presennol, a chefnogwyr/pobl gyffredin i geisio deall yn well pam mae defnydd o'r fath yn cael dylanwad/effaith arnynt.

Rhai o'r sefydliadau rydw i'n bwriadu eu cyfweld:

FAW, Scarlets, Commonwealth Games Wales
Wales Rugby League, Judo Cymru, Seiclo Cymru
WRU, Gweilch, Gleision Caerdydd, Cardiff City, Swansea City,
Gymnasteg Cymru, Nofio Cymru, Chwaraeon Cymru



Cyfeiriadau

Nikolov, M., and J. M. Djigunovic. 2006. "Recent Research on Age, second Language Acquisition, and Early Foreign Language Learning." Annual Review of Applied Linguistics 26: 234–260. doi: <https://doi.org/10.1017/S0267190506000122>.
Rhys James Jones, Daniel Cunliffe & Zoe R. Honeycutt (2013) Twitter and the Welsh language, Journal of Multilingual and Multicultural Development, 34:7, 653-671
Safal, P., L. Harvey, M. Lévesque, and P. Donnelly. 2007. "Sport Volunteerism in Canada: Do Linguistic Groups Count?" International Review for the Sociology of Sport 42 (4): 425–439
UNESCO 2003b. Promoting the Convention for the Safeguarding of the Intangible Cultural Heritage. Paris: UNESCO